**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru a gynhaliwyd am 10.30am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Gwener 16 Ionawr 2015**

**Yn Bresennol:** Dai Davies (Cadeirydd)
John Brereton, Will Haresign, Gwynn Angell Jones, Prys Morgan, Graham Probert, Glyn Roberts, Richard Tudor a Wyn Williams

**Trwy Wahoddiad:** Helen Minnice-Smith a David Morris, Llywodraeth Cymru

**Yno hefyd:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Finch (Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol)
Laura Pickup (Rheolwraig Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)

Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a rhoddodd ddiweddariad llafar am y prif ddigwyddiadau a chyfarfodydd y bu'n eu mynychu oddi ar y cyfarfod blaenorol:-

*Tachwedd 2014*

Bu'r Cadeirydd yn cadeirio cynhadledd flynyddol HCC ym Mharc y Scarlets, Llanelli, ar 13 Tachwedd 2014.

Bu'r Cadeirydd yn cyflwyno gwobrau i enillwyr Her Cig Oen Cymru Morfa Heli PGI ym Mharis a drefnwyd gan y mân-werthwr Monoprix â chefnogaeth HCC.

Ar 27 Tachwedd 2014, mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr lansiad adroddiad Adolygiad o'r Sector Cig Coch yng Nghymru. Yn bresennol, roedd cynrychiolwyr o'r holl gadwyn gyflenwi, gan gynnwys mân-werthwyr. Cafodd yr adroddiad dderbyniad da iawn a byddai'n cael ei ddefnyddio gan HCC a Llywodraeth Cymru fel dogfen gyfeirio ar gyfer y Cynllun Gweithredu Strategol i Ddiwydiant Cig Coch Cymru 2015 – 2020 a'r Rhaglen Cig Coch ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig 2014 – 2020.

*Rhagfyr 2014*

Bu'r Cadeirydd yn y Ffair Aeaf a diolchodd i'r Bwrdd am fod yn bresennol.

Cafodd HCC ei longyfarch gan y Bwrdd am ansawdd y stondin a'r gweithgareddau. Canmolwyd staff HCC gan y Cadeirydd am eu gwaith caled a'u hymrwymiad a wnaeth y digwyddiad yn un llwyddiannus i HCC.

Bu'r Cadeirydd yn cynrychioli HCC mewn cyfarfod o Bwyllgor Gwaith Sirol Undeb Amaethwyr Cymru yng Nghaerfyrddin. Hefyd, roedd y Cadeirydd yn aelod o'r panel yn y cyfweliadau terfynol ar gyfer swydd Pennaeth Gweithrediadau.

Cadeiriodd y Cadeirydd gyfarfod cyntaf Grŵp Trafod y Diwydiant ar Raddio Carcasau er mwyn adolygu grid EUROP a'r systemau awtomataidd (ar gyfer Cig Eidion a Chig Oen) ac i archwilio a datblygu sylwadau'r gadwyn cyflenwi cig coch. Roedd nifer dda yn y cyfarfod, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r gadwyn gyflenwi gyfan.

Roedd y Grŵp yn unfrydol yn ei gefnogaeth i system ddiwygiedig i werthuso carcasau a nodwyd nifer o feysydd allweddol i'w hystyried.

Datblygwyd datganiad cenhadaeth a chytunwyd yn ei gylch:-

"Er mwyn cymell cynhyrchwyr a bodloni gofynion defnyddwyr a'r gadwyn gyflenwi ehangach, mae angen gweithredu ar y cyd wrth ystyried gwerthuso carcasau trwy ddulliau awtomataidd. Mae'r Grŵp yn unfrydol ei farn bod angen i'r diwydiant gydweithio i geisio cael system dalu yn seiliedig ar faint o gig sy'n cael ei gynhyrchu."

Byddai Is-grŵp yn cael ei ffurfioer mwyn cael trafodaethau cychwynnol. Byddai'r Is-grŵp yn cynnwys proseswyr, cynhyrchwyr a Llywodraeth Cymru a byddai'n cael ei hwyluso gan HCC. Byddai'r Is-grŵp yn adrodd yn ôl i'r Grŵp ehangach.

Diolchodd y Cadeirydd i John Yeomans am ei gefnogaeth wrth drefnu'r cyfarfod cychwynnol.

*Ionawr 2015*

Bu'r Cadeirydd ym Mrecwast blynyddol Undeb Amaethwyr Cymru a gynhaliwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cafwyd ymddiheuriadau gan Bethan Jones, Richard Rogers a John Yeomans.

3. **Datganiad o Fuddiannau**

Nodwyd Datganiadau o Fuddiannau fel a ganlyn:-

Rheoli Credyd - John Brereton, Prys Morgan a Wyn Williams.

Pennaeth Gweithrediadau – Prys Morgan.

Cafodd Prys Morgan ei longyfarch gan y Cadeirydd ar ei benodiad y Bennaeth Gweithrediadau gyda HCC. Nodwyd y byddai'n dechrau yn ei swydd ar

30 Mawrth 2015 ac y byddai ar yr un pryd yn rhoi'r gorau i'w swydd fel Cyfarwyddwr Anweithredol o Fwrdd HCC.

4. **<u>I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Gwener 7 Tachwedd 2014 (HCC 605)</u>**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener 7 Tachwedd 2014 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **<u>Materion yn codi</u>**

*<u>Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru - Gwaith Gwerthuso ar Enwau Bwyd Gwarchodedig</u>*

Roedd y gwaith uchod yn parhau a chai HCC wahoddiad i gyfrannu maes o law.

*<u>Cyllid gan y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI</u>*

Nodwyd bod cadarnhad swyddogol wedi ei dderbyn gan yr UE ynghylch yr ariannu ar y cyd (UE ac Ardoll) ar gyfer cyllid gweithgareddau hyrwyddo. Roedd y gronfa'n £3,214,000 dros gyfnod o dair blynedd gan ddechrau ar 1 Ebrill, 2015.

Câi'r Bwrdd y diweddaraf drwy'r amser am y datblygiadau.

*<u>Y Ganolfan Amaeth – Dechnoleg ar gyfer Arloesedd mewn Da Byw sy'n Cnoi Cil (CIRL)</u>*

Roedd HCC wedi cyfarfod â Nigel Scollan, IBERS i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr uchod.

Cytunwyd yn y cyfarfod y byddai HCC yn ymuno ag IBERS wrth gyflwyno cynnig i'w ystyried gan Amaeth-Technoleg.

*<u>Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru a chostau adennill ar gyfer 2015/201</u>*

Nodwyd bod adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Dirprwy Weinidog am ystyriaeth a bod disgwyl am ateb.

6. **<u>Adroddiadau HCC</u>**

a. *<u>Adroddiad Gweithgareddau (HCC 606)</u>*

Cymerwyd bod yr adroddiad wedi'i ddarllen.

*<u>Cynllun Datblygu Gwledig – Dileu Rhwystrau Cofnodi Electronig</u>*

Roedd cyfanswm o 671 o geisiadau wedi dod i law hyd yma oddi wrth y 1500 o gyfranogwyr a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant ac wedi lawrlwytho'u talebau. Roedd yr adborth yn dal i fod yn gadarnhaol iawn.

Dywedwyd y byddai peth o'r arian a oedd yn wreiddiol wedi'i ddyrannu i godi ymwybyddiaeth ar gyfer y prosiect yn awr yn cael ei ddargyfeirio i ddarparu talebau ar gyfer tua 100 o ffermwyr ychwanegol nad oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant cyn cyrhaedwyd y targed.

Cynhaliwyd y ddau ddigwyddiad dyrannu cyntaf yng Ngholeg Glynllifon a Llwyn yr Brain, Adfa, yn ystod Ionawr 2015 gyda digwyddiadau pellach wedi eu trefnu ar gyfer mis Chwefror 2015 i gefnogi ac annog ymgysylltiad gweithredol gan y cyfranogwyr. Câi cyfranogwyr eu gwahodd hefyd i lenwi dau arolwg ar-lein trwy gyfrwng y wefan yn ystod oes y prosiect i grynhoi eu profiadau o ddefnyddio EID.

*Ymweliad diplomyddol a Norwy*

Rhoddwyd cyflwyniad ynglŷn â'r uchod gan y Rheolwr Datblygu'r Diwydiant.

Amcan cyffredinol yr ymweliad diplomyddol â Norwy dan arweiniad y Dirprwy Weinidog oedd deall y farchnad ar gyfer cig oen yn y wlad ac i edrych ar y posibiliadau o gael cwota UE ar gyfer mewnforion cig i Norwy.

Fodd bynnag, roedd angen cydnabod bod gan yr UE gymhwysedd unigryw ar gyfer trafodaethau masnach uniongyrchol â Norwy. Roedd y Dirprwy Weinidog wedi ymrwymo i drafod y mater hwn â'r UE a Gweinyddiaeth Amaeth Norwy.

b. *Bwletin y Farchnad (HCC 607)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

c. *Digwyddiadau i Ddod (HCC 608)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

d. *I dderbyn cyflwyniad am werthusiad o ymgyrch hysbysebu Cig Oen Cymru PGI, 2014*

Rhoddwyd cyflwyniad ynglŷn â'r uchod gan Reolwr Datblygu'r Diwydiant.

I grynhoi, y prif bethau a ddysgwyd gan y gwerthusiad oedd:-

- Bu gan HCC hysbysebion teledu digdol wedi'u targedu mewn dau ranbarth teledu (Cymru a Meridian)

- Profwyd bod y strategaeth o gyfuno hysbysebion teledu a digidol wedi bod yn effeithiol iawn o ran cynyddu ymwybyddiaeth
- Cyflawnwyd mwy o ymwybyddiaeth, ond roedd hynny i ychydig raddau ar draul canfyddiad am mai swm cyfyngedig o arian oedd ar gael i'w fuddsoddi yn yr ystod o sianelau sydd eu hangen i gyflawni ymwybyddiaeth ac ymgysylltu (sef yr hyn sy'n dylanwadu ar ganfyddiad)
- Yn ffodus, roedd canfyddiad eisoes yn gymharol uchel - ond byddai angen buddsoddiad parhaus i sicrhau bod hyn yn parhau yn y dyfodol.

*Cyllid y Comisiwn Ewropeaidd (UE) ar gyfer Cig Oen Cymru PGI (Ffrainc, yr Almaen a'r Eidal)*

Rhoddwyd cyflwyniad ynglŷn â'r uchod gan Reolwr Datblygu'r Diwydiant

Câi'r naill gyflwyniad a'r llall eu hanfon at y Bwrdd er gwybodaeth.

O ystyried y newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid rhwng Sterling a'r Ewro, gofynnwyd am eglurhad ynghylch y dylanwad a gâi hyn ar weithgareddau hyrwyddo wedi'u hariannu gan yr UE.

7. **I ystyried Cynllun Busnes drafft HCC ar gyfer 2015 / 2016 (HCC 609)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol.

Nodwyd bod y Cynllun Busnes drafft ar gyfer 2015 / 2016 wedi cael ei alinio â chyd-destun Cynllun Gweithredu Strategol Diwydiant Cig Coch Cymru ar gyfer 2015 a oedd ar hyn o bryd yn cael ei adnewyddu.

Felly, cafodd y Cynllun Busnes drafft ei ailffocysu er mwyn iddo ganolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na chynnyrch.

Roedd yn ofynnol i'r Cynllun Busnes drafft gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2015. Felly, cytunwyd y dylai adborth neu sylwadau pellach gael eu cyfeirio at y Pwyllgor Gwaith heb fod yn hwyrach na diwedd Ionawr 2015 er mwyn iddynt gael eu cynnwys yn y drafft terfynol.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol mai'r bwriad oedd peidio â chael arian dros ben ar gyfer blwyddyn ariannol 2015 / 2016. Câi hyn ei adolygu gyda golwg ar y sefyllfa ariannol ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2014 / 2015.

Trafodwyd sylwadau'r Bwrdd a chawsant eu nodi.

Byddai drafft diwygiedig o'r Cynllun Busnes ar gyfer 2015 / 2016 yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd cyn y cyfarfod nesaf, ynghyd â chrynodeb o'r newidiadau a nodwyd.

8. **I Dderbyn Cynllun Gwaith i'r Bwrdd ar gyfer 2015 / 2016 (HCC 610 )**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

9. **I dderbyn diweddariad llafar am Ddosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain**

Cyfarfu'r Is-grŵp Ardoll Cig Coch (AHDB, HCC, LMCNI a QMS) ar 14 Ionawr, 2015.

Roedd pawb wedi gwerthuso "Papur Opsiynau" drafft a gyflwynwyd yn wreiddiol gan AHDB i'r Grŵp Ardoll Cig Coch ar 29 Medi, 2014.

Cytunodd y cyfarfod i lunio argymhelliad i'r Grŵp Ardoll Cig Coch ei ystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 29 Ionawr 2015.

10. **I dderbyn diweddariad llafar o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Cig Coch Cymru 2015 – 2020**

Roedd disgwyl i'r Cynllun Gweithredu Strategol drafft 2015 - 2020 gael ei gyflwyno'n brydlon i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo gan y Dirprwy Weinidog cyn yr ymgynghoriad ffurfiol.

11. **I dderbyn diweddariad llafar ynghylch datblygu Rhaglen Cig Coch ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig 2014 – 2020**

Roedd y Dirprwy Weinidog wedi cyhoeddi'n ddiweddar bod cymeradwyaeth ffurfiol yr UE o'r Cynllun Datblygu Gwledig yn annhebygol cyn haf 2015. Fodd bynnag, parhaodd HCC â thyrafodaethau gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu prosiect strategol a fyddai o fudd i ddiwydiant cig coch Cymru.

Byddai'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn trafod yr eitem hon ymhellach â'r Dirprwy Weinidog mewn cyfarfod ar 21 Ionawr 2015.

12. **I dderbyn diweddariad llafar ar EIDCymru – y gronfa ddata ar gyfer symud defaid**

Cafodd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ei lunio rhwng HCC a Llywodraeth Cymru i'w ystyried.

13. **Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg**

a. *I dderbyn adroddiad llafar am gyfarfod yr Is-bwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ddydd Gwener 7 Tachwedd 2014*

Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg adroddiad llafar ar y materion a drafodwyd yn y cyfarfod.

b. *I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ddydd Llun 23 Mai 2014 (HCC 611)*

Cymerwyd bod cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ddydd Llun 23 Mehefin 2014 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

14. **Y Pwyllgor Cynghori Y&D**

a. *I gael adroddiad llafar am yr Is-bwyllgor Cynghori Ymchwil a Datblygu a gynhaliwyd ddydd Mercher 3 Rhagfyr 2014*

Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad llafar am y materion a drafodwyd yn y cyfarfod.

b. *I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori Y&D a gynhaliwyd ddydd Iau 4 Medi 2014 (HCC 612)*

Cymerwyd bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori Y&D a gynhaliwyd ddydd Iau 4 Medi 2014 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

15. **I gael diweddariad llafar o'r broses o ail-lenwi seddi aelodau Bwrdd HCC**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Bwrdd am gymryd rhan yn y broses werthuso yn ddiweddar.

Roedd yn amlwg bod holl aelodau'r Bwrdd yn cyflawni eu dyletswyddau fel Cyfarwyddwyr Anweithredol mewn modd clodwiw a oedd yn cyfrannu at lwyddiant y sefydliad

Cafodd adroddiad am y broses werthuso ei gyflwyno i'r Dirprwy Weinidog am gymeradwyaeth.

16. **Unrhyw fater arall**

*WRAP Cymru*

Penodwyd WRAP Cymru gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd â gwaith dadansoddi ynghylch cynaliadwyedd amryw o gynhyrchion bwyd. Y bwriad oedd gwneud rhywfaint o waith ar y sector cig coch ac felly byddai HCC yn cael ei wahodd i gyfrannu yn unol â hynny.

*Cofrestru nod masnach Cig Oen Cymru PGI yn Hong Kong*

Cadarnhaodd y Bwrdd fod Bryan Regan wedi'i awdurdodi i lofnodi dogfennau mewn perthynas â chofrestru nodau masnach yn Hong Kong.

17. **<u>Dyddiad y cyfarfod nesaf</u>**

Dydd Gwener 6 Mawrth 2015.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**